Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Helyg
# Ystad Ddiwydiannol Rising Sun
# Y Blaenau
# NP13 3DQ

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2020

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Ynglŷn ag Ysgol Bro Helyg

## Ynglŷn â'r ysgol

Mae Ysgol Gymraeg Bro Helyg ger pentref Y Blaenau yn awdurdod lleol Blaenau Gwent. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal eang, a daw'r disgyblion o bob cwr o'r sir. Mae 256 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed yn yr ysgol, gan gynnwys 47 oed meithrin. Cymraeg yw prif gyfrwng iaith yr ysgol.

Mae gan tua 7% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sy'n 18%. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan tua 11% o'r disgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn is na'r ffigwr cenedlaethol, sy'n 21%. Daw llawer o ddisgyblion o gartrefi Saesneg. Mae tua 21% ohonynt yn siarad Cymraeg gartref.

Penodwyd y pennaeth presennol ym mis Ebrill 2012 a chynhaliwyd yr arolygiad diwethaf ym mis Mawrth 2015.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a gweithgar sy'n rhoi sylfaen gadarn i ddisgyblion ddysgu o oed cynnar, yn enwedig wrth gaffael yr iaith Gymraeg. Mae gan y pennaeth a'r staff ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac, o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r staff yn trefnu ymyraethau pwrpasol i ddisgyblion, sy'n llwyddo i'w cefnogi i wella'u medrau llythrennedd, rhifedd a lles yn dda.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos brwdfrydedd tuag at eu dysgu. Maent yn parchu eraill yn dda ac yn gweithio'n ddiwyd mewn parau a grwpiau. Mae'r dosbarthiadau yn fannau trefnus a phrysur lle mae rhan fwyaf y disgyblion yn dyfalbarhau'n dda â'u tasgau. Fodd bynnag, nid yw holl ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn derbyn digon o gyfleoedd i'w galluogi i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain ac i ddod yn ddysgwyr annibynnol. Mae'r staff yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn gyson yn eu gwaith. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio'n ddigon bwriadus i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y disgyblion.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir i wireddu'r nod o 'osod sylfaen gadarn ar gyfer dyfodol disglair'. Mae'r ysgol wedi sefydlu tîm rheoli gweithgar sydd wedi llwyddo i arwain gwelliannau sylweddol yn llwyddiannus dros amser. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant bob amser yn canolbwyntio digon ar y blaenoriaethau pwysicaf er mwyn symud yr ysgol ymlaen.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr addysgu a'r profiadau dysgu yn datblygu annibyniaeth holl ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gyson

A2 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion ar draws yr ysgol

A3 Cryfhau gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn blaenoriaethu a mynd i'r afael â'r meysydd pwysicaf

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae llawer o'r disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â medrau cyfathrebu sy'n is na'r safon a ddisgwylir am eu hoed. Ychydig iawn ohonynt sy'n medru siarad Cymraeg cyn cychwyn. Fodd bynnag, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae llawer o'r disgyblion yn dechrau caffael medrau llefaredd Cymraeg yn gynnar iawn ar ôl cychwyn yn yr ysgol. Maent yn dod i adnabod cyfarwyddiadau ac yn dechrau siarad yn y Gymraeg gan ddefnyddio geirfa briodol a brawddegau syml. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn sgwrsio'n hyderus yn y Gymraeg gydag ymwelwyr, ac yn ymateb yn briodol i gwestiynau staff. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau llafaredd ymhellach yn ystod eu hamser yng nghyfnod allweddol 2, gan ddechrau ystyried y gynulleidfa yn bwrpasol, er enghraifft wrth iddynt osod lleisiau i'w gwaith animeiddio, 'Antur India'. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n astud ar oedolion mewn gwersi.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau darllen. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, maent yn darllen gyda lefel dda o rugldder, ac yn defnyddio strategaethau gwahanol i ddadansoddi geiriau anghyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf yn dangos dealltwriaeth drwyadl o'r cynnwys, ac yn llwyddo i gyfieithu brawddegau o lyfrau Cymraeg i'r Saesneg. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu medrau darllen yn llwyddiannus, gyda'r mwyafrif yn darllen am fwynhad ac yn trafod eu hoff awduron gyda hyder. Maent yn defnyddio eu medrau darllen yn grefftus i ddadansoddi a chanfod gwybodaeth, er enghraifft wrth ddatrys cyfres o broblemau mathemategol.

Yn ystod eu hamser yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu cadarn. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau mudol mân yn gadarn trwy wneud marciau a dechrau ysgrifennu llythrennau a geiriau syml. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn datblygu i ysgrifennu darnau estynedig yn llwyddiannus, fel llythyr at 'ddyn eira'. Yn ystod cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau gwahanol â phwrpas. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu erthygl ar gyfer papur newydd dychmygol 'Clecs Y Cwm', ac yn ysgrifennu portread o Frenin Richard III fel rhan o brosiect am William Shakespeare.

Mae llawer o ddisgyblion y dosbarthiadau meithrin yn dechrau adnabod rhifau ac yn cyfri hyd at ddeg yn gywir. Maent yn dod i adnabod a chreu patrymau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth brintio siapau gan ddefnyddio tatws. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio rhif yn hyderus yn eu gwaith. Er enghraifft, maent yn darganfod y newid cywir wrth dalu am 'ffrwythau' gwahanol yn yr ardal chwarae rôl gydag arian ffug. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn parhau i gymhwyso eu medrau rhifedd yn gynhyrchiol yn ystod cyfnod allweddol 2, er enghraifft wrth iddynt gofnodi canlyniadau ymchwiliad gwyddonol gan ddarganfod cyfartaledd pellter taith awyren bapur.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu ystod gyfyng o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn defnyddio pecynnau celf digidol i dynnu llun o dai crynion Celtaidd ac ychwanegu brawddeg bwrpasol iddynt, tra bod disgyblion Blwyddyn 6 yn canfod gwybodaeth ar y we gyda hyder. Fodd bynnag, nid yw medrau TGCh llawer o'r disgyblion wedi datblygu'n ddigon cadarn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau creadigol yn grefftus. Er enghraifft, mae unigolion yn y cyfnod sylfaen yn dysgu am ddiwylliannau gwahanol y byd wrth greu llusernau Tsieineaidd a phatrymau Rangoli, tra bod disgyblion Blwyddyn 6 yn actio dramâu Shakespeare mewn theatr leol.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae'r berthynas waith sy'n bodoli rhwng y disgyblion a'r staff yn gadarn yn yr ysgol ac yn sylfaen effeithiol ar gyfer cynnal ethos gofalgar a chefnogol. Mae bron pob disgybl yn siarad gyda balchder am eu hysgol.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn rhannu eu syniadau am eu haddysg yn briodol trwy gynnig syniadau am bethau yr hoffent ddysgu amdanynt ar ddechrau pob thema. Maent yn canolbwyntio'n dda ac yn dyfalbarhau am gyfnodau estynedig. Maent yn barod iawn i drafod eu gwaith, eu llwyddiannau a'r camau nesaf yn eu dysgu gydag oedolion. Enghraifft dda o hyn yw eu balchder wrth sôn am eu gwaith am reoli cyllid. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd, naill ai mewn grwpiau, mewn parau neu drwy gynnig cymorth i'w gilydd pan fo angen.

Mae gan ddisgyblion lefel uchel o ymddiriedaeth yn y staff ac maent yn gwybod y byddant yn gwneud eu gorau drostynt. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn mwynhau'r ysgol, yn deall beth i'w wneud os bydd unrhyw beth yn eu poeni ac yn teimlo'n hollol ddiogel yno. Maent yn siarad yn hyderus am sut i gadw'n ddiogel ar y we. Gall y disgyblion drafod gyda hyder bwysigrwydd peidio â datgelu gwybodaeth ar-lein a chadw manylion cyswllt yn gyfrinachol.

Mae'r rhan fwyaf yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac yn gwneud dewisiadau iachus. Mae'r gweithgareddau rhedeg milltir y dydd yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau'r disgyblion tuag at weithgarwch corfforol ac ar fyw yn iach. Mae llawer o ddisgyblion yn manteisio ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol fel clybiau chwaraeon a chelf.

Mae'r disgyblion yn chwarae rôl flaenllaw yng ngwaith strategol yr ysgol. Mae aelodau'r ystod eang o bwyllgorau plant yn cael dylanwad pwrpasol ar wahanol agweddau o'r ysgol. Mae'r disgyblion yn deall eu cyfrifoldebau'n glir ac yn ymgymryd yn frwdfrydig ac aeddfed â'u dyletswyddau. Enghraifft dda o hyn yw'r Criw Cymraeg a'u gwaith o hybu defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn busnesau yn y gymuned leol. Mae'r cyngor ysgol yn trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer nifer helaeth o elusennau. Yn ddiweddar, codwyd swm sylweddol o arian ganddynt at elusen plant. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth rhan fwyaf y disgyblion am anghenion eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesol a gwybodus trwy eu hymwybyddiaeth gynyddol o werthoedd sy'n cael eu hyrwyddo gan yr ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae gan staff berthynas waith gadarnhaol a chefnogol gyda'r disgyblion. Mae athrawon yn adnabod y disgyblion a'u hanghenion yn dda ac, o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd priodol mewn gwersi. Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion. Mae cyflymder pwrpasol i ran fwyaf y gwersi, sy'n cyfrannu'n effeithiol i'r naws weithgar sy'n amlwg yn y dosbarthiadau. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddysgu mewn grwpiau a pharau, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn parchu cyfraniad eu cyfoedion i'w dysgu.

Mae'r holl staff yn cyfrannu'n llwyddiannus at greu ethos Cymreig i'r ysgol. Maent yn modelu'r iaith yn fedrus ac yn manteisio'n briodol ar gyfleoedd i gyfoethogi geirfa'r disgyblion. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth gaffael iaith o oedran cynnar iawn. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud defnydd llawn o'r Gymraeg mewn gwersi a thu allan i'r ystafell ddosbarth. O ganlyniad, erbyn cyfnod allweddol 2, maent yn sgwrsio gyda'i gilydd yn naturiol trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod gwersi. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o ymweliadau oddi ar y safle i ddyfnhau dealltwriaeth disgyblion o'u themâu, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn gweithdai gwyddoniaeth a thechnoleg yn y brifysgol. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon bob tro'n manteisio ar gyfleoedd i blethu diwylliant a hanes Cymru i waith ar draws y cwricwlwm.

Mae'r athrawon yn cynllunio ystod briodol o weithgareddau diddorol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Mae ganddynt wybodaeth bynciol dda, ac maent yn rhoi sylw teilwng i ddysgu blaenorol y disgyblion wrth gynllunio profiadau newydd. Mae'r athrawon yn cydweithio'n fwriadus gyda chynorthwywyr sy'n cefnogi'r addysgu yn effeithiol. Maent yn holi disgyblion yn fedrus yn ystod gwersi, sy'n cyfrannu'n fuddiol at ddatblygu eu medrau meddwl. Mae hyn hefyd yn eu helpu i symud i'r cam nesaf yn eu dysgu ac yn fodd defnyddiol i asesu eu cynnydd. Mae athrawon yn rhoi adborth pwrpasol a rheolaidd i ddisgyblion yn ystod eu gwersi, gan gynnwys cyfleoedd iddynt fyfyrio ar eu cynnydd eu hunain ynghyd â chynnydd eu cyfoedion. O ganlyniad, yn yr arferion gorau, mae disgyblion yn mireinio, cywiro a gwella cynnwys eu gwaith yn briodol. Mae athrawon yn gosod targedau personol defnyddiol i'r disgyblion ac yn trefnu iddynt gael amser i'w hymarfer yn gyson.

Yn gyffredinol, mae staff y cyfnod sylfaen yn cynllunio ystod addas o brofiadau dysgu sy'n ymateb i ofynion y disgyblion yn briodol. Mae'r athrawon yn paratoi gweithgareddau ffocws addas er mwyn cyflwyno cysyniadau newydd i ddisgyblion. Yn ogystal â hyn, ceir ystod o heriau diddorol yn y gwahanol ardaloedd yn y dosbarthiadau, sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso eu medrau yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i wneud dewisiadau am eu dysgu ac i ymchwilio a darganfod gwybodaeth drostynt eu hunain. Yn ogystal, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â phrofiadau dysgu buddiol yn yr ardal allanol ac i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn llawn.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymarfer eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn gwersi ar draws yr ysgol. Maent yn cymhwyso'r medrau

hyn mewn amrywiol feysydd ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft mae disgyblion cyfnod allweddol 2 wedi dadansoddi data ynglŷn â thîm rygbi Cymru yn ddiweddar. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn cynllunio'n ddigon bwriadus er mwyn sicrhau bod disgyblion yn adeiladu ar eu medrau TGCh yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel i bron pob un disgybl. Mae'r holl staff yn ymrwymo i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac i ddarparu cefnogaeth werthfawr iddynt. Maent yn defnyddio systemau cadarn yn llwyddiannus i olrhain eu cynnydd o'u mannau cychwyn. O ganlyniad, maent yn darparu ymyraethau pwrpasol iddynt trwy ddefnyddio amrywiaeth eang o raglenni er mwyn gwella eu medrau llythrennedd, rhifedd a lles, lle bo'n briodol. Mae'r cynllunio bwriadus sy'n bodoli rhwng athrawon a chynorthwywyr yn sicrhau bod pob un yn deall eu rôl i'w galluogi i ddiwallu anghenion y disgyblion yn gadarn.

Mae'r cydlynydd anghenion addysgol arbennig yn cydweithio'n llwyddiannus â rhieni er mwyn canfod eu barn wrth iddynt gynllunio cefnogaeth i'w plant, ac adrodd iddynt ar eu cynnydd. Mae'r cynlluniau unigol sydd ar gael ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion arbennig yn bwrpasol ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol gydag ystod lawn o bartneriaethau ac asiantaethau allanol i gefnogi'r ddarpariaeth i ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anghenion emosiynol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at yr ethos gofalgar a theuluol sy'n bodoli yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn datblygu llais y disgybl yn dda trwy gyfrwng nifer o gynghorau a phwyllgorau ysgol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ethos yr ysgol wrth i'r disgyblion deimlo eu bod yn cael eu parchu a bod staff yn gwrando ar eu syniadau. Mae'r cyfleoedd hyn yn hyrwyddo egwyddorion fel cydweithio, cwrteisi a chyfeillgarwch yn effeithiol ac yn naturiol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Gwneir defnydd effeithiol o bartneriaethau allanol, fel yr heddlu, i sicrhau bod y disgyblion yn deall sut i gadw'n ddiogel ar-lein a phwysigrwydd peidio â chamddefnyddio sylweddau.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn effeithiol ac mae ganddi drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae ystod lawn o weithgareddau buddiol fel clybiau allgyrsiol coginio, pêl-rwyd, pêl-droed a sgipio yn ystod cyfnodau egwyl yn cefnogi hyn yn dda. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd cadw'n iach.

Mae perthynas gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r staff yn hybu diwylliant agored a chydweithredol â nhw, sy'n llwyddo i sicrhau eu hymrwymiad a chefnogaeth gynhwysfawr. Mae trefniadau llwyddiannus yn cynnwys gweithredu rhaglen bontio wrth i ddisgyblion ddechrau yn yr ysgol, sy'n eu cynorthwyo i ymgartrefi'n gyflym. Mae'r rhaglen hon hefyd yn cynnig cymorth gwerthfawr i'r rhieni

i ddatblygu eu gwybodaeth am greu bwydydd iach yn y cartref yn ogystal â datblygu eu gwybodaeth gychwynnol am y  Gymraeg.

Mae cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth a'u gwybodaeth am wahanol ddiwylliannau a rhannau eraill o'r byd trwy ddysgu am ddathliadau arbennig. Enghraifft dda o hyn yw'r gwaith ar y flwyddyn newydd Tsieineaidd a'r gwahaniaethau a'r tebygrwydd sy'n bodoli rhwng rhai o grefyddau'r byd.  Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn dangos empathi at fywydau pobl eraill ac yn rhoi cyfleoedd addas iddynt  ddatblygu'n ysbrydol wrth fyfyrio ar gredoau eu hunain.  Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol y disgyblion yn llwyddiannus.  Maent yn gosod pwyslais amlwg ar agweddau fel pwysigrwydd trin eraill gyda pharch ac yn hyrwyddo hawliau plant.  Mae gan yr ysgol raglen gefnogol ac effeithiol ar gyfer cefnogi gofalwyr ifanc.  Mae ganddi gysylltiadau llwyddiannus â phobl sy'n byw gyda dementia, a darperir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gefnogi elusennau fel Canolfan Ganser leol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o gynaliadwyedd yn dda.  O ganlyniad i waith y cyngor eco, mae'r athrawon a'r disgyblion yn hybu pwysigrwydd edrych ar ôl ein planed yn effeithiol.  Er enghraifft, maent yn ailgylchu papur a datblygu ffyrdd o arbed dŵr, i feithrin dealltwriaeth yr holl gymuned am bwysigrwydd byw yn fwy gwyrdd.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da**

Mae gan y pennaeth a'r arweinwyr weledigaeth glir a chadarn ar gyfer datblygu'r ysgol yn gymuned ddysgu lwyddiannus trwy ddarparu addysg a gofal uchel i bob disgybl.  Mae'r weledigaeth wedi ei seilio'n gadarn ar godi safonau, datblygu balchder tuag at yr iaith Gymraeg a lles disgyblion.  Mae'r pennaeth wedi sefydlu tîm arwain effeithiol i gynorthwyo â'r gwaith o osod cyfeiriad strategol pendant ar gyfer holl waith yr ysgol.  Maent yn rhannu hyn yn llwyddiannus gyda staff, llywodraethwyr, rhieni a'r disgyblion.  Mae gan aelodau'r uwch dîm rheoli ddisgwyliadau uchel o'u hunain ac o eraill.  Maent yn defnyddio'u harbenigedd yn fedrus i sicrhau cefnogaeth ac anogaeth i staff ymrwymo'n llwyr i wella deilliannau disgyblion.  Mae bron pob aelod staff yn ymwybodol iawn o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn gweithredu'n hynod effeithiol fel tîm.  Mae hyn oll wedi cael effaith gadarnhaol ar godi safonau, ac wedi sicrhau gwelliannau amlwg ar draws yr ysgol dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i reoli perfformiad ei hathrawon a'u chynorthwywyr.  Mae hyn yn sicrhau eu bod yn derbyn cefnogaeth i wireddu blaenoriaethau'r ysgol ynghyd â'u hanghenion proffesiynol unigol.  Nodwedd gref o waith yr ysgol yw'r ffordd y mae arweinwyr yn cefnogi ac annog staff i ymgymryd â gweithgareddau dysgu proffesiynol yn llwyddiannus o fewn yr ysgol, a thrwy ystod o rwydweithiau buddiol gydag ysgolion ar draws y rhanbarth.  Enghraifft dda o hyn yw'r arweiniad y mae'r ysgol yn ei gynnig i ysgolion y clwstwr ym maes dysgu proffesiynol.  Mae hyn yn galluogi'r holl staff i fyfyrio ar eu harfer yn ogystal â datblygu hyder yr arweinwyr.  Mae'r pennaeth hefyd yn cefnogi staff i gymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddiant pellach i'w paratoi ar gyfer y camau nesaf yn eu gyrfaoedd.  Hyfforddir y rhan fwyaf o gynorthwywyr dysgu yn effeithiol i gefnogi disgyblion unigol a grwpiau penodol o ddisgyblion ar amrywiaeth o ymyraethau defnyddiol.  Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at gryfhau medrau'r staff er mwyn sicrhau bod safonau disgyblion yn dda o ran eu dysgu a'u lles.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o safonau a chyflawniad disgyblion. Maent yn derbyn gwybodaeth bwrpasol gan y pennaeth, a chyflwyniadau gwerthfawr a chyson gan staff a disgyblion ar elfennau penodol o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae aelodau'r corff yn cynnal teithiau dysgu gwerthfawr gyda disgyblion, staff a'r ymgynghorydd her er mwyn canfod mwy o wybodaeth am y ddarpariaeth. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o waith yr ysgol yn llwyddiannus, ac yn eu galluogi i herio arweinwyr yn briodol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cryf o hunanwerthuso parhaus, sy'n canolbwyntio'n briodol ar ddeilliannau a lles disgyblion ynghyd â'r ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd addas o safbwynt a mewnbwn rhieni, disgyblion a staff fel rhan o'i gweithdrefnau hunanwerthuso. Mae arweinwyr ac athrawon yn dilyn rhaglen fonitro gynhwysfawr er mwyn arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a'r dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r arfarniadau hyn bob tro'n ddigon miniog i adnabod rhai meysydd i'w gwella yn ddigon effeithiol. Yn gyffredinol, mae cyswllt priodol yn bodoli rhwng canfyddiadau'r gweithdrefnau hunanwerthuso a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen gynhwysfawr sy'n amlinellu camau gweithredu addas ar gyfer sicrhau gwelliant. Fodd bynnag, mae'r blaenoriaethau yn eang iawn ac yn cynnwys nifer o feysydd i'w gwella. O ganlyniad, nid yw'r arweinwyr bob tro'n blaenoriaethu'r meysydd pwysicaf sydd angen sylw.

Mae arweinwyr yn rheoli'r gyllideb yn ofalus ac yn sicrhau bod y gwariant yn cysylltu'n dda â'r cynlluniau ar gyfer gwelliant. Gwna'r ysgol ddefnydd crefftus o wahanol grantiau, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i gefnogi disgyblion bregus. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau rhifedd, llythrennedd a lles y disgyblion hyn.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/04/2020